

Ymgynghoriad Ymddiriedolaeth y BBC ac Awdurdod S4C ar y Cytundeb Gweithredu Ymateb Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

1. Cyflwyniad

Mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg wedi bod yn ymgyrchu ers deugain mlynedd ym maes darlledu ac wedi chwarae rhan allweddol yn y frwydr i sicrhau S4C a gwasanaeth Cymraeg ar y radio. Er dechrau ymddiddori yn y maes bu Cymdeithas yr Iaith o'r farn y dylai fod gan Gymru ei gwasanaeth darlledu annibynnol ei hun, un sydd yn annibynnol o Lundain ac sy'n rhoi'r parch dyledus i'r Gymraeg fel priod iaith Cymru. Felly yr ydym yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn gyda deugain mlynedd o brofiad y tu cefn i ni. Mae presenoldeb y Gymraeg yn y cyfryngau yn hollbwysig i bawb yng Nghymru. Cred Cymdeithas yr Iaith Gymraeg fod gan bawb yng Nghymru, boed yn siarad Cymraeg neu beidio, hawliau i'r Gymraeg. Hynny yw, nid yn unig hawliau i'w defnyddio a'i dysgu, ond hefyd i'w chlywed a'i gweld. Yn ogystal, credwn fod cynnwys Cymraeg unigryw ar y cyfryngau yn cyfoethogi a chryfhau'r iaith. Felly, mae presenoldeb a defnydd cynhwysfawr o'r iaith ar y teledu, radio, y we a phob cyfrwng arall yn allweddol i'n gweledigaeth ni fel mudiad.

2. Pwyntiau Cyffredinol am yr ymgynghoriad

Credwn fod y cynigion a amlinellir yn y cytundeb yn rhai a fyddai'n dinistrio annibyniaeth S4C fel darlledwr cyhoeddus. Mae nifer o gymalau a fyddai'n golygu mai'r BBC fydd â'r llaw uchaf mewn unrhyw drefniant ariannol, gyda pharagraff 6.20 yr enghraifft gwaethaf ymysg nifer yn y ddogfen i'r perwyl hwn.

Amlygir natur unochrog a ffafiaeth tuag at y BBC yn y ddogfen mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys diffyg pwyslais y ddogfen am bwrpas y cytundeb fel un i sicrhau y gall S4C gynnal ei hun fel darlledwr annibynol yn weithredol, strategol yn ogystal â golygyddol ar wahân i'r BBC.

Un o brif wendidau eraill y ddogfen yw'r diffyg cydnabyddiaeth o effaith y sianel ar yr iaith Gymraeg. Gan mai am reswm ieithyddol y sefydlwyd y sianel, credwn fod methu son am effaith iaith y sianel fel ei phrif bwrpas yn amlygu'r ffaith bod y BBC ac S4C wedi colli golwg ar y rheswm sefydlwyd y sianel yn y lle cyntaf. Teimlwn yn gryf na ellid asesu 'gwerth am arian' S4C yn yr un modd ag unrhyw sianel arall gan fod pwrpas y sianel yn un ieithyddol benodol. Nid oes sôn ychwaith am iaith weinyddiaeth fewnol y sianel, dylai fod cymal sydd yn sicrhau mai'r Gymraeg fydd iaith weinyddiaeth fewnol S4C.

Ymhellach, mae'r ddogfen yn anwybyddu ein democratiaeth ddatganoledig yng Nghymru, nid oes son am fewnbwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru na Llywodraeth Cymru, er bod

S4C yn rhan bwysig o strategaethau a pholisïau sydd yn effeithio ar gyfrifoldebau datganoledig megis yr iaith Gymraeg a datblygu economi Cymru.

Pryderwn yn fawr y byddai paragraffau 3.13 a 3.14 yn diddymu llais annibynnol S4C fel darlledwr.

Hefyd, credwn fod paragraff 6.13 yn tanseilio holl bwrpas ymgynghori'n gyhoeddus gan y byddai golygu y gallai'r cytundeb gael ei newid heb ymgynghoriad cyhoeddus pellach.

Mae'n hanfodol bod paragraff 6.20 yn cael ei ddileu, ni ddylai fod modd i'r BBC gwtogi ar gyllideb S4C o dan unrhyw amgylchiadau.

Yn ogystal, ni ddylai fod modd i'r BBC, drwy'r 'Bwrdd Partneriaeth' honedig, allu cyfrif arbedion mewnol S4C fel arbedion mewnol y BBC.

3. Pwyntiau Penodol

Adran 2

Anghytunwn â pharagraffau 2.13 - 2.15, ni ddylai fod rheidrwydd ar S4C i ymgynghori â'r BBC cyn ystyried darparu, neu ddarparu, gwasanaeth newydd. Byddai hynny yn sicr yn tynnu oddi ar annibyniaeth S4C

Parthed paragraffau 2.16 a 2.17, gwelwn mai afrealistig yw gofyn i S4C ddarparu rhaglen 'ansawdd uchel' gyda thoriadau enfawr yn ei chyllideb.

Adran 3

Anghytunwn ag Adran 3 o'r ddogfen, nid ydym yn gweld pwrpas i'r BBC asesu perfformiad S4C yn ogystal ag S4C ei hunan. Ni ddylai ddarlledwr annibynnol gael ei asesu gan ddarlledwr arall fel mater o egwyddor, ond ar lefel ymarferol mae'n debygol o lesteirio annibyniaeth weithredol, greadigol, strategol a golygyddol S4C.

Credwn fod y ddogfen yn colli golwg ar brif bwrpas y sianel, sef i hybu, hyrwyddo a diogelu'r Gymraeg a gwireddu hawliau pobl Cymru i dderbyn gwasanaeth teledu llawn yn y Gymraeg. Siomedig tu hwnt yw gweld nad oes sôn yn yr adran hon am effaith y sianel ar gyflwr yr iaith Gymraeg, sef prif reswm ei bodolaeth.

Ymhellach, credwn fod paragraffau 3.13 - 3.14 yn gosod cynsail beryglus iawn a byddant yn gwanhau llais annibynnol S4C i ymateb i ymgynghoriadau yn annibynnol i'r BBC. Gwelwn hyn yn ymgais i sicrhau bod S4C yn cytuno gydag unrhyw gynigion pellach yn y

dyfodol gan y BBC i draflyncu S4C yn gyfan gwbl, heb i S4C allu siarad yn eu herbyn.

Adran 4

Anghytunwn â'r toriadau pellach i gyllid S4C fel amlinellir ym mharagraff 4.1 - 4.3. Nid ydym yn derbyn bod gan y BBC stiwardiaeth arbennig dros ffi'r drwydded yn fwy nag S4C gan fod yr arian hwn yn arian sydd wedi dod gan y cyhoeddus, nid yn arian i'r BBC ei reoli. Yn hynny o beth, dylai fod cydnabyddiaeth mai S4C yw stiward yr arian cyhoeddus y mae'n ei dderbyn, boed o'r ffi drwydded neu'r Llywodraeth yn uniongyrchol.

Parthed paragraff 4.5, credwn fod angen ei aralleirio i ddatgan mai pwrpas yr arian a ddaw i S4C drwy'r ffi drwydded yw i'w gynnal fel darlledwr annibynnol a fydd yn darparu gwasanaethau Cymraeg aml-gyfryngol er mwyn hybu a hyrwyddo'r Gymraeg a gwireddu hawliau pobl Cymru i wasanaethau aml-gyfryngol Cymraeg. Perygl y geiriad presennol yw y gallai ganiatáu diddymu rheolaeth annibynnol S4C oddi wrth y BBC gan na fyddai arian ar ôl i gynnal gweinyddiaeth annibynnol i S4C.

Gan fod S4C eisoes wedi gorfod gwneud llawer iawn o doriadau i'w gwasanaethau yn barod, anghytunwn â'r orfodaeth i wneud rhagor o doriadau 'effeithlonrwydd mewnol' fel sy'n cael ei ddisgrifio ym mharagraffau 4.6 a 4.7. Nid yw'n gweld ei fod yn realistig i gynnal darlledwr annibynnol o dan yr amodau llym o doriadau mewnol pellach. Ni chredwn y dylai fod rhaid i S4C adrodd ar y toriadau afrealistig fel yr awgrymir ym mharagraffau 4.10 i 4.12 ychwaith felly.

Adran 5

Nid ydym yn gweld pwrpas gorfodi S4C i gyflwyno datganiad ariannol blynyddol i ymddiriedolaeth y BBC, fel sydd wedi'i nodi o dan baragraff 5.4, yn ychwanegol i'r un a ddarperir i'r Llywodraeth. Ymhellach, mae'r cytundeb yn datgan y bydd gan y Swyddfa Archwilio fynediad at gyfrifon S4C, felly nid oes angen goruchwyliaeth ymddiriedolaeth y BBC yn ogystal.

Adran 6

Cytunwn â pharagraff 6.6 ond credwn fod modd ei gryfhau. Yn hynny o beth, dylid ychwanegu sôn am annibyniaeth ariannol a strategol S4C oddi wrth y BBC a dylid datgan mai pwrpas y cytundeb yw sicrhau bod S4C yn ddarlledwr annibynnol i'r BBC. Yn ogystal, dylid ychwanegu cymal sydd yn datgan mai un o bwrpasau'r cytundeb yw sicrhau bod modd i S4C weithredu'n annibynnol er lles y Gymraeg ac er mwyn gwireddu hawliau unigolion i glywed, gweld a defnyddio'r Gymraeg yn aml-gyfryngol.

Nid ydym yn cytuno â pharagraff 6.8, ni ddylai cydweithio'n agosach fod yn nod. Ni chredwn y dylid sefydlu bwrdd cyd-bartneriaeth ychwaith gan ei bod yn gwbl amlwg mai prif bwrpas bwrdd o'r fath yw torri ar annibyniaeth S4C.

Rydym eisoes wedi sôn am yr angen i ddileu paragraff 6.13 o'r cytundeb gan ei fod yn tanseilio pwrpas yr ymgynghoriad cyhoeddus. Yn hytrach dylai'r cymal nodi fod angen ymgynghoriad cyhoeddus pellach cyn gwneud unrhyw newidiadau pellach i'r cytundeb gan unrhyw un.

Ym mharagraff 6.15, er mwyn adlewyrchu'r sefyllfa datganoledig, dylai fod angen cydsyniad Llywodraeth Cymru cyn gwneud newidiadau pellach i'r cytundeb.

Mae paragraff 6.16 wedi ei ysgrifennu o bersbectif diogelu buddiannau'r BBC yn unig. Mae'r cymal yn rhoi gormod o le i'r BBC ymddwyn fel y prif bartner, ac yn rhoi rheolaeth agored i'r BBC benderfynu beth sydd yn 'rhesymol'. Dylid ail-ysgrifennu'r paragraff fel bod gorfodaeth ar y ddau barti i gadw at y cytundeb.

Rydym am ategu'r sylw y dylid dileu paragraff 6.20. Ni ddylai fod hawl gan y BBC i gwtogi ar gyllideb S4C o dan unrhyw amgylchiadau. Yn hynny o beth, mae'r paragraff yn amlygu prif wendid y cytundeb sef ei fod yn ceisio rhoi'r llaw uchaf, a'r gair olaf, i'r BBC yn y berthynas rhwng y ddau ddarllledwr. Dylid penderfynu ar a datrys unrhyw anghytundeb rhwng y ddau ddarllledwr gan gorff gwbl annibynnol, yn hytrach na'r BBC.

Atodiad 1

Fel y dywedir uchod, ni chredwn y dylid sefydlu'r Bwrdd Partneriaeth. Fodd bynnag, cynigiwn sylwadau ar yr atodiad rhag ofn yr anwybyddir ein hawgrym i ddileu cyfeiriad at y Bwrdd.

Anghytunwn yn gryf â'r ail baragraff o dan 1 Awdurdod, ni ddylai arbedion a wnaed gan S4C gael ei gyfrif fel arbedion BBC Cymru. Byddai hynny yn golygu y bydd gan y BBC gymhelliad i wneud rhagor o doriadau i S4C fel bod modd osgoi toriadau mewnol i BBC Cymru.

Ym mharagraffau 2.4 a 2.5 o'r atodiad, nid ydym yn gweld pam dylai'r Bwrdd Partneriaeth gael gwybod am bob cynllun tu allan i gylich gwaith y Bwrdd a fydd yn cynnwys y ddau ddarllledwr. Gwelwn berygl fod y Bwrdd Partneriaeth yn datblygu i fod fforwm a fydd yn tanseilio annibyniaeth awdurdod S4C yn llwyr.

Ymhellach, credwn y dylai cofnodion y Bwrdd Partneriaeth cael eu cyhoeddi ar wefannau'r ddau ddarllledwr er mwyn sicrhau bod y trefniant yn un agored a thryloyw i'r cyhoedd.

4. Ymatebion i gwestiynau'r Ymgynghoriad

- 1. Ydych chi'n credu bod y Cytundeb Gweithredu drafft yn gweithredu'r egwyddorion y cytunwyd arnyn nhw rhwng Awdurdod S4C ac Ymddiriedolaeth y BBC ym mis Hydref ([Cytundeb 2011](#)) mewn dull priodol ac effeithiol ac yn sicrhau cydbwysedd cywir rhwng sicrhau atebolrwydd i Ymddiriedolaeth y BBC dros ddefnydd Awdurdod S4C o ffi'r drwydded tra ar yr un pryd yn diogelu annibyniaeth golygyddol a rheolaethol S4C?**

Nac ydyn, mae'r cytundeb yn dinistrio annibyniaeth S4C ac yn rhoi'r llaw uchaf i'r BBC mewn nifer o ffyrdd. Mae'r cytundeb yn ceisio sicrhau mai gan y BBC fydd y gair olaf yn y berthynas rhwng y ddau ddarlledwr. Yn benodol, mae paragraffau 6.20 yn rhoi hawl i'r BBC gwtogi ar gyllideb S4C os dymunant. Mae'r ddogfen hefyd yn galluogi'r BBC i gyfrif toriadau mewnol i S4C fel 'arbedion effeithiolrwydd' y BBC ei hun. Mae'r awgrym yn un gwbl anonest ac yn tanseilio annibyniaeth S4C yn llwyr.

Gweler ragor o bwyntiau yn ein hymateb uchod.

- 2. Ydych chi'n credu y bydd y Cytundeb Gweithredu drafft yn sicrhau bod modd i Awdurdod S4C gyflawni gwerthoedd gwasanaeth cyhoeddus cyffredin y BBC ac S4C a Dibenion Cyhoeddus y BBC wrth ddarpariaeth gwasanaethau S4C? Mae Dibenion Cyhoeddus y BBC ar gael yn adran 2 o'r Cytundeb Gweithredu drafft.**

Nac ydyn, gan fod y cytundeb yn cadarnhau ac ymestyn y toriadau i'r sianel a fydd yn gwaethygu'r gwasanaeth a chwtogi ar y buddsoddiad yn y Gymraeg. Mae'r cytundeb hefyd yn tanseilio annibyniaeth S4C am y rhesymau a amlinellir uchod.

Ymhellach, ni chredwn y dylai fod angen i S4C gydymffurfio i ddibenion cyhoeddus y BBC gan nad oes ystyriaeth o gryfder a chyflwr yr iaith Gymraeg yn y dibenion hynny. Prif bwrpas S4C yw sicrhau dyfodol llewyrchus i'r iaith Gymraeg trwy ddarparu gwasanaethau aml-gyfryngol, nid oes sôn am effaith ar iaith y sianel o gwbl yn y ddogfen - sydd yn amlygu'r ffaith bod pwrpas y sianel wedi mynd ar goll yn yr holl newidiadau trefniadol. Ymhellach, dylid ychwanegu cymal sydd yn datgan mai'r Gymraeg fydd iaith weinyddiaeth fewnol S4C er mwyn sicrhau nad yw'r newidiadau yn tanseilio natur ieithyddol y sefydliad.

Ymhellach, gweler rhagor o bwyntiau yn ein hymateb uchod.

- 3. A oes unrhyw faterion eraill yr ydych yn credu y dylai Ymddiriedolaeth y BBC ac Awdurdod S4C eu hystyried cyn cymeradwyo'r Cytundeb Gweithredu**

drafft, neu a oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu cyfrannu?

Oes, rydym wedi cynnwys nifer o bwyntiau yn ein hymateb uchod. Yn ogystal, tynnwyd ein sylw at brosiect digidol yn ymwneud â'r rhaglen deledu Pobl y Cwm (http://www.s4c.co.uk/c_press_level2.shtml?id=683) a hyrwyddwyd, ac, fe dybiwn ni, ariennir yn rhannol gan S4C. Credwn y dylai S4C sicrhau ei bod yn darparu'r rhan fwyaf o gyfleodd digidol sy'n cael eu hariannu ganddi ar wahân i raglenni a/neu fentrau'r BBC er mwyn sicrhau plwraliaeth yn y cyfryngau digidol.